

Datganiad newyddion

Dyddiad: 22 Hydref 2019

Teitl: Uchelgeisiau mentrus newydd ym maes ymchwil ac arloesi yng Nghymru

Mae prifysgolion a phartneriaid wedi ymuno â CCAUC i daro golwg ar y tirlun ymchwil (YacA) ac arloesi yng Nghymru, ac i amlinellu sut i greu cymuned YacA ffyniannus i fodloni'r anghenion economaidd, cymdeithasol a dinesig yng Nghymru a thu hwnt.

Mae Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru yn disgrifio nod CCAUC i sicrhau safle Cymru fel partner arweiniol ym maes ymchwil ac arloesi o amgylch y byd, ac i sicrhau ffyniant economaidd a chymdeithasol i Gymru.

Mae'r heriau a'r cyfleoedd a amlinellir yn y *Weledigaeth* wedi'u seilio ar bedair elfen thematig, sef Rhagoriaeth, Lle, Arloesi a Chydweithredu, ac yn creu'r cyd-destun i wireddu prif uchelgeisiau CCAUC, sef:

- cynnal a datblygu **sylyfaen ymchwil ragorol** ym mhrifysgolion Cymru.
- cynnal sylyfaen ymchwil sy'n **cefnogi arloesedd** sy'n rhoi hwb i gynhyrchiant mewn busnesau yng Nghymru.
- cyflawni **ffyniant economaidd** a **lles cymdeithasol** ar gyfer pobl Cymru.
- gwneud cyfraniad hanfodol at gyrraedd targed Llywodraeth y DU o 2.4% o wariant Cynnyrch Domestig Gros ar ymchwil a datblygu.

Yn ôl Dr Alyson Thomas, Cyfarwyddwr Polisi ac Chyllido CCAUC: “Drwy ein Gweledigaeth, gwelwn CCAUC yn datblygu rôl allweddol fel corff dylanwadol ac yn meithrin perthynas gref ag UK Research and Innovation, a chyrrff cyllido a dylanwadol eraill allweddol.

“Rydym yn gwybod bod prifysgolion yn wych am gydweithio yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym yn gwybod bod eu gwaith ymchwil yn ddylanwadol. Mae’n rhaid inni fanteisio ar y cryfderau hyn ac ar eu meysydd arbenigol neilltuol. Mae angen i’n prifysgolion hefyd allu manteisio ar fuddsoddiadau gan bartneriaid diwydiannol.

“Y Weledigaeth hon yw ymateb CCAUC i argymhellion Adolygiad Reid er mwyn codi proffil YacA yng Nghymru. Ond er mwyn gwireddu’r Weledigaeth yn llwyr, mae angen sicrhau digon o adnoddau ar gyfer y sylfaen ymchwil mewn prifysgolion, gan fod hynny o gymorth i ddenu cyllid gan UKRI a chyrrff cyllido eraill o bwys.

“Mae’r Weledigaeth yn cydnabod yr ystod eang o heriau a chyfleoedd y mae’n rhaid i ddarparwyr addysg fanteisio arnynt er mwyn llwyddo, a rhagwelwn y bydd y llwyddiant hwn ar ffurf sector addysg uwch sy’n llawn her, newid a chyflawniad.”

Bydd *Y Weledigaeth* yn cael ei lansio’n swyddogol ar **22 Hydref** mewn [digwyddiad uchel ei broffil yng Nghaerdydd](#), a gynhelir gan yr Athro Mark E Smith (Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil Cymru CCAUC ac Is-ganghellor Prifysgol Southampton), gyda’r Athro Graeme Reid (awdur yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru a Chadeirydd y Polisi Gwyddoniaeth ac Ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Llundain) yn rhoi’r brif araith.

Rhaglen

1pm – Cinio rhwydweithio

1.30pm – Croeso gan y Cadeirydd

1.40pm – Prif siaradwr: Yr Athro Graeme Reid

2.00pm – Cyflwyniadau gan:

- Dr Andrew Bourne, Cyfarwyddwr Cyswllt, EPSRC
- Dr Magdalini Theodoridou, Cymrawd Ymchwil Marie Skłodowska-Curie, Prifysgol Caerdydd

- James Davies, Cadeirydd Gweithredol, Diwydiant Cymru

2.20pm – Trafodaeth banel a chwestiynau

3.00pm – Coffi a rhwydweithio

3.30pm – Cloi

Diwedd

Manylion cyswllt am wybodaeth bellach, ac am gyfweiliadau â'r Athro Graeme Reid ynghylch y Weledigaeth

Emma Rączka, Uwch Reolwr Cyfathrebu

emma.raczka@hefcw.ac.uk 029 2085 9667

Nodiadau

Y ddogfen lawn

Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru

Datganiad Gweledigaeth Ymchwil Cymru

Bydd Cymru'n cynnal ac yn datblygu sylfaen ymchwil ragorol yn ei phrifysgolion. Bydd ein sylfaen ymchwil yn cefnogi arloesi sy'n rhoi hwb i gynhyrchiant mewn busnesau yng Nghymru ac yn cyflawni ffyniant economaidd a lles cymdeithasol ar gyfer pobl Cymru. Bydd yn gwneud cyfraniad hanfodol at gynllun gweithredu ar yr economi Llywodraeth Cymru, ac at gyrraedd targed Llywodraeth y DU o 2.4% o wariant Cynnyrch Domestig Gros ar ymchwil a datblygu.

Bydd sylfaen ymchwil Cymru'n fyd-eang ei phersbectif. Bydd ein prifysgolion yn parhau i gydweithredu â'i gilydd a gydag arweinwyr ymchwil ledled y DU ac yn rhyngwladol. Byddant yn gweithio i gynnal a gwella partneriaethau gyda diwydiant, gyda'r sector cyhoeddus a gyda mudiadau'r trydydd sector.

Bydd gan brifysgolion yng Nghymru ymdeimlad cadarn o le. Bydd gweithgarwch ymchwil yn ymateb i heriau penodol i'r rhanbarth lleol, gan ymgysylltu â chymunedau lleol i greu datrysiadau newydd. Bydd eu gwaith yn cael ei ddeall a'i werthfawrogi gan y gymuned leol a bydd yn berthnasol ledled Cymru, y DU a'r byd.

Cyd-destun

Mae'r *Weledigaeth ar gyfer Ymchwil ac Arloesi* newydd i Gymru yn adeiladu ar argymhellion Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru (Adolygiad Diamond) a'r Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru (Adolygiad Reid).



Research Vision cover English.PNG

Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith, er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.